| Cam Sylfaen | Siopa yn y gorffenol | 1 Sesiwn wedi hwyluso gan staff yr Amgueddfa |
|---|---|---|
| **Disgrifiad byd:**<br><br>Dewch i gyfarfod a'n siopwr a darganfod mwy am siopa yn y gorffennol.<br><br>Fe gaiff eich grŵp cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy ymarferol i ddysgu mwy am waith a bywyd y siop. | Hanes<br>**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**<br>**Amser a phobl**<br><br>**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**<br>• adnabod y newidiadau a gaiff eu hachosi gan dreigl amser, e.e. y newidiadau sy'n digwydd iddynt hwy eu hunain a phobl a mannau cyfarwydd<br>• sylweddoli bod rhesymau dros rai gweithredoedd a bod y gweithredoedd hynny'n gallu esgor ar ganlyniadau<br>• dechrau adnabod y gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau, e.e. trwy gymharu lle cyfarwydd yn ystod gwahanol gyfnodau yn y gorffennol | <br> |

| Amcanion dysgu: |
| --- |
| <ul><li>i ddysgu am ddatblygiad siopa ers Oes Fictoria gan ryngweithio gyda'n hwylusydd yn y gweithdy.</li><li>i ddechrau adnabod y gwahaniaeth rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau h.y. siopa yn y gorffennol a siopa heddiw.</li><li>Defnyddio ystod o ffynonellau hanesyddol gan gynnwys arteffactau gwreiddiol a replica i ddeall a dysgu am hanes siopa yn y gorffennol.</li></ul> |

| GWEITHGAREDD | FFRAMWAITH SGILIAU | FFRAMWAITH LLYTHRENEDD A RHIFEDD |
| --- | --- | --- |
| **Gweithdy 1 awr:**<br><br>Er mwyn deall datblygiad siopa dros amser fe gaiff eich grŵp cymryd rhan mewn sesiwn ymarferol gyda'n hwylusydd. Fe fydd yna gyfle i drin a thrafod ystod o arteffactau gwreiddiol a replica yn yr Amgueddfa er mwyn ymchwilio siopa yn y gorffennol. Fe all y grŵp ddechrau adnabod y gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau.<br><br>Fe fydd y grŵp yn cael cyfarfod a'n siopwr; Mrs Howard a darganfod sut beth oedd rhedeg siop 1920au. Fe fydd y grŵp yn cael cyfle i ddefnyddio ag ymestyn sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy gynorthwyo Mrs Howard fel prentisiaid i gwblhau archeb ar gyfer cwsmeriaid y siop. Fydd hwn yn cynnwys chwarae rôl, rhifo yn ogystal â phwyso a mesur. | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.**<ul><li>Archwilio ac arbrofi</li><li>Gwrando ar syniadau pobl eraill</li><li>Llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau</li><li>Ffurfio cysylltiadau rhwng achos ac effaith</li></ul><br>**Datblygu cyfarthrebu:**<br><br>**Llafaredd** | **Rhifedd**<br>**Llinynnau:**<ul><li>**datblygu ymresymu rhifyddol**</li></ul>**Elfennau: Adnabod prosesau a chysylltiadau – FP.3, FP4.**<ul><li>**defnyddio sgiliau rhif**</li></ul>**Elfennau: Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau – 1N1, 1N4, 1N8.**<ul><li>**defnyddio sgiliau mesur**</li></ul>**Elfennau: Hyd, pwysau/ mas, cynhwysedd – 1M1**<br><br>**Llafaredd**<br>**Elfennau:** |

| | | |
|---|---|---|
| | • gwrando ar gyfarwyddiadau a'u dilyn<br><br>• gwrando ac ymateb yn briodol ac yn effeithiol, gan ganolbwyntio a thalu sylw'n gynyddol<br><br>**Datblygiad Mathamategol:**<br><br>• dewis a defnyddio syniadau, offer a deunyddiau mathamategol priodol i ddatrys problemau ymarferol | • **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**<br><br>**Agweddau: Gwrando – 1.OL2a, 1OL3, 1OL4** |
| **Adnoddau fydd eich grŵp yn defnyddio yn ystod yr ymweliad:**<br><br>**Dewch i Archwilio:** Y mae'r taflen yma ar gyfer plant yn iau ac ar gael o'r Amgueddfa os ydyw wedi archebu o flaen llaw.<br><br>**Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch:**<br><br>http://www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe/addysg/sut_i_archebu/ | | |